



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2001 Rhif 2787 (Cy.237)**

**2001 No. 2787 (W.237)**

**COMISIYNYDD PLANT,  
CYMRU**

**CHILDREN'S  
COMMISSIONER, WALES**

Rheoliadau Comisiynydd Plant  
Cymru 2001

The Children's Commissioner for  
Wales Regulations 2001

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru ("y Comisiynydd") a sefydlwyd o dan Ran V o Ddeddf Safonau Gofal 2000 ("y Ddeddf").

These Regulations make provision in relation to the functions of the Children's Commissioner for Wales ("the Commissioner") established under Part V of the Care Standards Act 2000 ("the Act").

Mae Rhan I o'r Rheoliadau'n cynnwys darpariaethau ynghylch dehongli.

Part I of the Regulations contains interpretation provisions.

Mae Rhan II, mewn perthynas â rôl y Comisiynydd wrth adolygu a monitro trefniadau ar gyfer cŵynion, chwythu'r chwiban ac eiriolaeth, yn rhagnodi'r math o yngor a chymorth i blant y mae'r trefniadau ar eu cyfer i ddod o dan awdurdodaeth y Comisiynydd (rheoliad 2). Mae hefyd yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd fynnu cael gwybodaeth oddi wrth bersonau rhagnodedig (rheoliad 3).

Part II, in relation to the role of the Commissioner in reviewing and monitoring complaints, whistle-blowing and advocacy arrangements, prescribes the kind of advice and support for children arrangements for the provision of which are to be subject to the Commissioner's jurisdiction (regulation 2). It also confers power on the Commissioner to require information from prescribed persons (regulation 3).

Mae Rhan III yn rhoi swyddogaethau i'r Comisiynydd ynghylch archwilio achosion plant penodol y mae Rhan V o'r Ddeddf yn gymwys iddynt (rheoliad 4); yn pennu'r mathau o achos a all gael eu harchwilio (rheoliad 5) ac o dan ba amgylchiadau y gall archwiliad gael ei wneud (rheoliad 6); yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal archwiliad (rheoliad 7), ynghylch rhoi gwybodaeth i'r Comisiynydd mewn cysylltiad ag archwiliad (rheoliad 8), ac ynghylch bod yn bresennol gerbron y Comisiynydd yn bersonol (rheoliad 9).

Part III confers functions on the Commissioner concerning the examination of cases of particular children to whom Part V of the Act applies (regulation 4); specifies the types of case which may be examined (regulation 5) and the circumstances in which an examination may be made (regulation 6); makes provision for the conduct of an examination (regulation 7), as to the provision of information to the Commissioner in connection with an examination (regulation 8), and as to attendance before the Commissioner in person (regulation 9).

Mae Rhan IV yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd roi cymorth ariannol a chymorth arall i blant y mae Rhan V o'r Ddeddf yn gymwys iddynt, yn rhagnodi'r achosion a'r gweithdrefnau y gall cymorth o'r fath gael ei roi mewn perthynas â hwy (rheoliad 10) ac yn darparu ar gyfer amodau a all gael eu gosod mewn cysylltiad â rhoi cymorth (rheoliad 11).

Mae Rhan V yn gwneud darpariaeth bellach ar gyfer y trefniadau ynghylch perthynas y Comisiynydd â phlant (rheoliad 12).

Mae Rhan VI yn gwneud darpariaeth ar gyfer adroddiadau penodol a chamau i'w dilyn (rheoliadau 13 a 14), ynghylch adroddiadau blynyddol (rheoliad 15) ac ynghylch cyhoeddi adroddiadau (rheoliad 16).

Mae Rhan VII yn cynnwys darpariaethau amrywiol ynghylch y cyfyngiadau ar arfer swyddogaethau penodol lle maent yn gorgyffwrdd â swyddogaethau cyrff eraill sydd wedi'u rhagnodi (rheoliad 17); i bennu cyfnod y flwyddyn ariannol gychwynol a'r blynyddoedd ariannol canlynol (rheoliad 18); ynghylch y modd y rhoddir gwybodaeth (rheoliad 19); ynghylch talu treuliau a lwfansau mewn perthynas â rhoi gwybodaeth (rheoliad 20) ac ynghylch dehongli cyfeiriadau penodol at blant (rheoliad 21). Yn olaf, mae'r Rheoliadau yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth arfer ei swyddogaethau (rheoliad 22).

Part IV confers power on the Commissioner to provide financial and other assistance to children to whom Part V of the Act applies, prescribes the proceedings and procedures in relation to which such assistance may be given (regulation 10) and provides for conditions which may be imposed in connection with the provision of assistance (regulation 11).

Part V makes further provision for the arrangements relating to the Commissioner's relationship with children (regulation 12).

Part VI makes provision for specific reports and action to follow them up (regulations 13 and 14), as to annual reports (regulation 15) and as to publication of reports (regulation 16).

Part VII contains miscellaneous provisions as to the restrictions on the exercise of certain functions where they overlap with functions of other bodies which are prescribed (regulation 17); to set the period of the initial and succeeding financial years (regulation 18); as to the way in which information is produced (regulation 19), as to payment of expenses and allowances in relation to the production of information (regulation 20) and as to the construction of certain references to children (regulation 21). Finally, the Regulations impose a duty on the Commissioner, in exercising his or her functions, to have regard to the United Nations Convention on the Rights of the Child (regulation 22).

**2001 Rhif 2787 (Cy.237)****2001 No. 2787 (W.237)****COMISIYNYDD PLANT,  
CYMRU****CHILDREN'S  
COMMISSIONER, WALES****Rheoliadau Comisiynydd Plant  
Cymru 2001****The Children's Commissioner for  
Wales Regulations 2001***Wedi'i wneud* 25 Gorffennaf 2001*Made* 25 July 2001*Yn dod i rym**Coming into force**At bob diben heblaw**For all purposes other than**Rheoliad 21(1)* 26 Awst 2001*Regulation 21(1)* 26th August 2001*At ddibenion**For the purposes of**Rheoliad 21(1)* 1 Hydref 2001*Regulation 21(1)* 1st October 2001

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adrannau 73(4)(b) a (5), 74(1) i (3) a (6), 76(1), (1A), (2), (4) a (5), 77(2), 78(1A) a (6), 118(4) a (7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(a) a pharagraffau 6(4) ac 8 o Atodlen 2 iddi:

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the power conferred upon it by sections 73(4)(b) and (5), 74(1) to (3) and (6), 76(1), (1A), (2), (4) and (5), 77(2), 78(1A) and (6), 118(4) and (7) of and paragraphs 6(4) and 8 of Schedule 2 to the Care Standards Act 2000(a):

**RHAN I****PART I****CYFFREDINOL****GENERAL****Enwi, cychwyn a dehongli****Citation, commencement and interpretation**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 a deuant i rym at ddibenion paragraff (1) o reoliad 21 ar 1 Hydref 2001 ac at bob diben arall ar 26 Awst 2001.

1.-(1) These Regulations may be cited as the Children's Commissioner for Wales Regulations 2001 and shall come into force for the purposes of paragraph (1) of regulation 21 on 1st October 2001 and for all other purposes on 26th August 2001.

(2) Yn y Rheoliadau hyn -

(2) In these Regulations -

ystyr "adolygiad swyddogaethau" ("*a functions review*") yw adolygiad o'r effaith a gâi arfer swyddogaethau, neu'r bwriad i arfer swyddogaethau, ar blant yn unol ag adran 72B(1) o'r Ddeddf;

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Care Standards Act 2000;

ystyr "adolygiad trefniadau" ("*arrangements review*") yw adolygiad o'r trefniadau mewn perthynas â chŵynion, chwythu'r chwiban neu eiriolaeth yn unol ag adran 73(1) o'r Ddeddf;

"arrangements in relation to complaints, whistleblowing or advocacy" ("*trefniadau mewn perthynas â chŵynion, chwythu'r chwiban neu eiriolaeth*") means arrangements falling within subsection (2), (2A), (2B), (2C), (3), or (4) of section 73 of the Act as the case may be;

ystyr "y Comisiynydd" ("*the Commissioner*") yw Comisiynydd Plant Cymru;

"an arrangements review" ("*adolygiad trefniadau*") means a review of arrangements in relation to

(a) 2000 p.14. Gweler adran 78(7) i gael y diffiniad o "regulations". Cafodd diwygiadau perthnasol eu gwneud i adrannau 74, 76 a 78 gan Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (p.18).

(a) 2000 c.14. See section 78(7) for the definition of "regulations". Relevant amendments were made to sections 74, 76 and 78 by the Children's Commissioner for Wales Act 2001(c.18).

ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000;

dehonglir "gwasanaethau rheoleiddiedig i blant yng Nghymru" ("*regulated children's services in Wales*") a "darparydd" ("*provider*"), mewn perthynas â gwasanaethau o'r fath, yn unol ag adran 78 o'r Ddeddf ac eithrio bod cyfeiriadau at wasanaethau o'r fath ac at ddarparwyr gwasanaethau o'r fath hefyd yn cael eu dehongli yn unol â pharagraff 3 o Atodlen 5 i'r Ddeddf i'r perwyl eu bod yn cynnwys cyfeiriadau at wasanaethau y mae'n bosibl nad ydynt ar unrhyw adeg yn cael eu rheoli o dan y Ddeddf neu at ddarparwyr y gwasanaethau hynny ar adeg felly, wrth ddisgwyl i ddarpariaethau perthnasol yn y Ddeddf ddod i rym;

ystyr "plant perthnasol" ("*relevant children*") yw plant y mae Rhan V o'r Ddeddf yn gymwys iddynt;

ystyr "y Prif Weinidog" ("*the First Minister*") yw'r person a etholir o dro i dro yn Brif Ysgrifennydd y Cynulliad yn unol ag adran 53(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998;

ystyr "trefniadau mewn perthynas â chwynion, chwythu'r chwiban neu eiriolaeth" ("*arrangements in relation to complaints, whistle-blowing or advocacy*") yw trefniadau sy'n dod o fewn is-adran (2), (2A), (2B), (2C), (3), neu (4) o adran 73 o'r Ddeddf yn ol fel y digwydd.

(3) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad -

- (a) at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad yn y Rheoliadau hyn sy'n dwyn y rhif hwnnw;
- (b) mewn rheoliad at baragraff â rhif, yn gyfeiriad at y paragraff yn y rheoliad hwnnw sy'n dwyn y rhif hwnnw;
- (c) mewn paragraff at is-baragraff â llythyren neu rif, yn gyfeiriad at yr is-baragraff yn y paragraff hwnnw sy'n dwyn y llythyren honno neu'r rhif hwnnw.

## RHAN II

### ADOLYGU A MONITRO TREFNIADAU

#### Cyngor a chymorth a ragnodir

2. Dyma'r math o gyngor a chymorth a ragnodir at ddibenion adran 73(4)(b) o'r Ddeddf -

- (a) rhoi cyngor a chymorth i blant perthnasol y bwriedir iddynt eu galluogi neu eu helpu i fynegi eu barn a'u dymuniadau ar lafar neu drwy ddefnyddio unrhyw ddull cyfathrebu arall, a

complaints, whistle-blowing or advocacy pursuant to section 73(1) of the Act;

"the Assembly" ("*y Cynulliad*") means the National Assembly for Wales;

"the Commissioner" ("*y Comisiynydd*") means the Children's Commissioner for Wales;

"the First Minister" ("*y Prif Weinidog*") means the person elected from time to time as the Assembly First Secretary pursuant to section 53(1) of the Government of Wales Act 1998;

"a functions review" ("*adolygiad swyddogaethau*") means a review of the effect on children of the exercise or proposed exercise of functions pursuant to section 72B(1) of the Act;

"regulated children's services in Wales" ("*gwasanaethau rheoleiddiedig i blant yng Nghymru*") and "provider" ("*darparydd*"), in relation to such services, shall be construed in accordance with section 78 of the Act except that references to such services and to the providers of such services shall also be construed in accordance with paragraph 3 of Schedule 5 to the Act to the effect that they include references to services which may at any time not be regulated under the Act or to providers of such services at such a time, pending the coming into force of relevant provisions of the Act;

"relevant children" ("*plant perthnasol*") means children to whom Part V of the Act applies.

(3) In these Regulations, a reference -

- (a) to a numbered regulation is to the regulation in these Regulations bearing that number;
- (b) in a regulation to a numbered paragraph, is to the paragraph in that regulation bearing that number;
- (c) in a paragraph to a lettered or numbered sub-paragraph, is to the sub-paragraph in that paragraph bearing that letter or number.

## PART II

### REVIEW AND MONITORING OF ARRANGEMENTS

#### Prescribed advice and support

2. The kind of advice and support prescribed for the purposes of section 73(4)(b) of the Act is -

- (a) the provision of advice and support to relevant children which is intended to enable or assist them to express their views and wishes orally or using any other means of communication, and

- (b) rhoi cyngor (gan gynnwys gwybodaeth) i blant o'r fath ynghylch eu hawliau a'u lles.

### **Rhoi gwybodaeth gan bersonau rhagnodedig**

3.-(1) Caiff y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson y mae paragraff (2) yn gymwys iddo roi gwybodaeth i'r Comisiynydd, wedi'i chofnodi ar unrhyw ffurf, y mae'r Comisiynydd o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus ei chael at ddibenion

- (a) adolygu a monitro trefniadau mewn perthynas â chŵynion, chwythu'r chwiban neu eiriolaeth, a
- (b) asesu effaith methiant unrhyw berson i wneud trefniadau o'r fath yn unol ag adran 73(1A) o'r Ddeddf.

(2) Dyma'r personau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) -

- (a) Mewn perthynas â darparu gwasanaethau rheoleiddiedig i blant yng Nghymru, darparwyr neu gyn-ddarparwyr gwasanaethau o'r fath, cyflogeion neu gyn-gyflogeion darparwyr neu gyn-ddarparwyr o'r fath, personau sy'n gweithio neu a fu'n gweithio i ddarparwyr neu gyn-ddarparwyr o'r fath yn wirfoddol, ac aelodau a chyflogeion a chyn-aelodau a chyn-gyflogeion y Cynulliad;
- (b)
  - (i) Aelodau (gan gynnwys aelodau etholedig), cyfarwyddwyr, gweithredwyr, swyddogion a chyflogeion person perthnasol, cyn-aelodau, cyn-gyfarwyddwyr, cyn-weithredwyr, cyn-swyddogion a chyn-gyflogeion person perthnasol a phersonau sy'n gweithio neu a fu'n gweithio i berson perthnasol yn wirfoddol;
  - (ii) At ddibenion is-baragraff (i) ystyr "person perthnasol" yw'r Cynulliad, unrhyw berson a grybwyllir yn Atodlen 2B i'r Ddeddf (heblaw'r Cynulliad) sy'n darparu gwasanaethau i blant neu mewn perthynas â phlant yng Nghymru neu berson sy'n darparu gwasanaethau o'r fath ar ran y person hwnnw neu o dan drefniadau ag ef.
- (c) Derbynnydd neu reolwr eiddo person sy'n darparu neu a fu'n darparu'r gwasanaethau a ddisgrifir ym mharagraffau (a) neu (b), ei ddatodwr neu ei ddatodwr dros dro neu ei ymddiriedolwr mewn methdaliad, yn ôl fel y digwydd.

### **RHAN III**

#### **ARCHWILIO ACHOSION**

##### **Archwiliadau**

4. Yn ddarostyngedig i'r paragraffau canlynol yn y Rhan hon caiff y Comisiynydd archwilio achosion plant penodol y mae Rhan V o'r Ddeddf yn gymwys iddynt.

- (b) the provision of advice (including information) to such children about their rights and welfare.

### **Provision of information by prescribed persons**

3.-(1) The Commissioner may require a person to whom paragraph (2) applies to provide to the Commissioner information, recorded in any form, which the Commissioner considers it necessary or expedient to have for the purposes of

- (a) reviewing and monitoring arrangements in relation to complaints, whistle-blowing or advocacy, and
- (b) assessing the effect of the failure of any person to make such arrangements pursuant to section 73(1A) of the Act.

(2) The persons referred to in paragraph (1) are -

- (a) In relation to the provision of regulated children's services in Wales, the providers or former providers of such services, employees or former employees of such providers or former providers, persons who work or worked for such providers or former providers in a voluntary capacity, and members and employees and former members and employees of the Assembly;
- (b)
  - (i) Members (including elected members), directors, executives, officers and employees of a relevant person, former members, directors, executives, officers and employees of a relevant person and persons who work or worked for a relevant person in a voluntary capacity;
  - (ii) For the purposes of sub-paragraph (i) "relevant person" means the Assembly, any person mentioned in Schedule 2B to the Act (other than the Assembly) providing services to or in respect of children in Wales or a person providing such services on behalf of or under arrangements with that person.
- (c) The receiver or manager of the property, the liquidator or provisional liquidator or the trustee in bankruptcy, as the case may be, of a person who provides or provided services described in paragraphs (a) or (b).

### **PART III**

#### **EXAMINATION OF CASES**

##### **Examinations**

4. Subject to the following paragraphs in this Part the Commissioner may examine the cases of particular children to whom Part V of the Act applies.

## **Achosion sy'n agored i'w harchwilio**

5. Yn ddarostyngedig i reoliad 6, caiff y Comisiynydd archwilio achosion plant penodol -

- (a) y mae gwasanaethau rheoleiddiedig i blant yng Nghymru yn cael neu wedi cael eu darparu iddynt neu mewn perthynas â hwy;
- (b) y mae gwasanaethau yn cael neu wedi cael eu darparu iddynt neu mewn perthynas â hwy gan unrhyw un o'r personau a grybwyllir yn Atodlen 2B i'r Ddeddf neu bersonau sy'n darparu gwasanaethau o'r fath ar ran unrhyw un o'r personau hynny neu o dan drefniadau â hwy; neu
- (c) sydd fel arfer yn preswyllo yng Nghymru ac y mae arfer, neu'r bwriad i arfer, unrhyw swyddogaeth sydd gan y Cynulliad neu sydd gan unrhyw berson a grybwyllir yn Atodlen 2A i'r Ddeddf yn effeithio arnynt neu wedi effeithio arnynt,

os yw'r achosion yn ymwneud â materion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau o'r fath neu ag effaith arfer y swyddogaethau hynny ar y plant a enwyd.

## **Yr amgylchiadau y gellir archwilio odanynt**

6. Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y caiff y Comisiynydd archwilio achos plentyn penodol:

- (a) os cyflwynir sylwadau i'r Comisiynydd gan y plentyn o dan sylw neu, os nad yw'r plentyn am unrhyw reswm yn gallu cyflwyno sylwadau o'r fath, os cyflwynir sylwadau i'r Comisiynydd ar ran y plentyn gan berson sydd, ym marn resymol y Comisiynydd, yn addas i gyflwyno sylwadau o'r fath;
- (b) os yw'r Comisiynydd o'r farn bod y sylwadau'n codi cwestiwn o egwyddor sy'n gymwys neu'n berthnasol yn fwy cyffredinol i hawliau neu les plant perthnasol nag yn yr achos penodol o dan sylw; ac
- (c) os yw'r Comisiynydd wedi cymryd i ystyriaeth a yw'r materion sydd o dan sylw yn yr achos wedi cael neu yn cael eu hystyried yn ffurfiol mewn unrhyw fodd gan bersonau eraill ac os nad ydynt, a ydynt, ym marn y Comisiynydd, yn fwy addas i gael eu hystyried gan bersonau eraill.

## **Y weithdrefn ar gyfer cynnal archwiliad**

7. -(1) Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu cynnal archwiliad rhaid iddo -

- (a) llunio cylch gwaith yr archwiliad;
- (b) anfon y cylch gwaith at y person a gyflwynodd

## **Cases subject to examination**

5. Subject to regulation 6, the Commissioner may examine cases of particular children -

- (a) to or in respect of whom regulated children's services in Wales are being or have been provided;
- (b) to or in respect of whom services are being or have been provided by any of the persons mentioned in Schedule 2B to the Act or persons providing such services on behalf of or under arrangements with any of those persons; or
- (c) who are ordinarily resident in Wales and who are being or have been affected by the exercise or proposed exercise of any function of the Assembly or a person mentioned in Schedule 2A to the Act,

where the cases relate to issues concerning the provision of such services or the effect on the said children of the exercise of such functions.

## **Circumstances in which an examination may be made**

6. The Commissioner may only examine the case of a particular child where

- (a) a representation is made to the Commissioner by the child concerned or, if the child is unable for any reason to make such a representation, where a representation is made to the Commissioner on behalf of the child by a person who, in the reasonable opinion of the Commissioner is suitable to make such a representation;
- (b) the Commissioner considers that the representation raises a question of principle which has a more general application or relevance to the rights or welfare of relevant children than in the particular case concerned; and
- (c) the Commissioner has taken into account whether the issues involved in the case have been or are being formally considered in any way by other persons and if they have not or are not whether, in the Commissioner's opinion, they are more suitable for consideration by other persons.

## **Procedure for conducting an examination**

7. -(1) Where the Commissioner decides to conduct an examination he or she shall -

- (a) produce terms of reference of the examination;
- (b) send the terms of reference to the person who

sylwadau mewn perthynas â'r achos yn unol â pharagraff (a) o reoliad 6;

- (c) anfon hysbysiad ysgrifenedig o'r archwiliad arfaethedig a chopïau o'r cylch gwaith at y person ("y person sy'n cael ei archwilio") y mae ei waith wrth ddarparu gwasanaethau neu wrth arfer swyddogaethau i gael ei archwilio;
- (ch) rhoi cyfle i'r person sy'n cael ei archwilio, ac os yw ef yn dymuno hynny, i'w gynrychiolydd, gyflwyno sylwadau mewn ysgrifen neu yn bersonol mewn perthynas â'r materion sy'n cael eu harchwilio.

(2) Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu peidio â chynnal archwiliad rhaid iddo baratoi datganiad o'r rhesymau am y penderfyniad hwnnw ac anfon copïau ohono -

- (a) at y person a gyflwynodd sylwadau mewn perthynas â'r achos yn unol â pharagraff (a) o reoliad 6, a
- (b) at unrhyw bersonau eraill y mae'r Comisiynydd o'r farn ei bod yn briodol eu hanfon atynt.

#### **Rhoi gwybodaeth mewn cysylltiad ag archwiliad**

8.-(1) Wrth gynnal archwiliad caiff y Comisiynydd -

- (a) ei gwneud yn ofynnol i berson y mae paragraff (2) yn gymwys iddo roi unrhyw wybodaeth y mae'n ymddangos i'r Comisiynydd y mae angen amdani at ddibenion yr archwiliad o dan sylw;
- (b) ei gwneud yn ofynnol i berson o'r fath neu berson arall o'r fath a all fod yn atebol am yr wybodaeth honno, roi esboniad neu gymorth i'r Comisiynydd -
  - (i) mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n destun archwiliad, neu
  - (ii) mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth a ddarperir o dan is-baragraff (a).

(2) Dyma'r personau y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddynt -

- (a) Mewn perthynas â darparu gwasanaethau rheoleiddiedig i blant yng Nghymru, darparwyr neu gyn-ddarparwyr gwasanaethau o'r fath, cyflogeion neu gyn-gyflogeion darparwyr neu gyn-ddarparwyr o'r fath, personau sy'n gweithio neu sydd wedi gweithio i ddarparwyr neu gyn-ddarparwyr o'r fath yn wirfoddol, ac aelodau a chyflogeion a chyn-aelodau a chyn-gyflogeion y Cynulliad;
- (b)
  - (i) Aelodau (gan gynnwys aelodau etholedig), cyfarwyddwyr, gweithredwyr, swyddogion a chyflogeion person perthnasol, cyn-

made a representation in relation to the case in accordance with paragraph (a) of regulation 6;

- (c) send written notice of the proposed examination and copies of the terms of reference to the person ("the person being examined") in respect of whose provision of services or the exercise of whose functions is to be examined;
- (d) afford to the person being examined, and if he or she so desires, his or her representative an opportunity to make representations in writing or in person in relation to the matters being examined.

(2) Where the Commissioner decides not to conduct an examination he or she shall prepare a statement of reasons for that decision and shall send copies of it to -

- (a) the person who made the representation in relation to the case in accordance with paragraph (a) of regulation 6, and
- (b) such other persons as the Commissioner considers appropriate.

#### **Provision of information in connection with an examination**

8.-(1) In conducting an examination the Commissioner may -

- (a) require a person to whom paragraph (2) applies to provide any information which appears to the Commissioner to be necessary for the purposes of the examination in question;
- (b) require such a person or such other person as may be accountable for the said information, to provide the Commissioner with an explanation of or assistance in relation to -
  - (i) any matters which are the subject of the examination, or
  - (ii) any information provided under subparagraph (a).

(2) The persons to whom this paragraph applies are -

- (a) In relation to the provision of regulated children's services in Wales, the providers or former providers of such services, employees or former employees of such providers or former providers and persons who work or worked for such providers or former providers in a voluntary capacity and members and employees and former members and employees of the Assembly;
- (b)
  - (i) Members (including elected members), directors, executives, officers and employees of a relevant person, former

aelodau, cyn-gyfarwyddwyr, cyn-weithredwyr, cyn-swyddogion a chyn-gyflogeion person perthnasol a phersonau sy'n gweithio neu sydd wedi gweithio i berson perthnasol yn wirfoddol;

(ii) At ddibenion is-baragraff (i) ystyr "person perthnasol" ("*relevant person*") yw'r Cynulliad, unrhyw berson a grybwyllir yn Atodlen 2A i'r Ddeddf, unrhyw berson arall sy'n arfer swyddogaeth gan y Cynulliad neu unrhyw berson a grybwyllir yn y cyfryw Atodlen 2A, neu unrhyw berson sy'n darparu gwasanaethau i blant neu ar gyfer plant yng Nghymru ar ran unrhyw berson a grybwyllir yn Atodlen 2B i'r Ddeddf neu o dan drefniant ag ef.

(c) Derbynnydd neu reolwr eiddo person sy'n darparu neu sydd wedi darparu'r gwasanaethau a ddisgrifir ym mharagraffau (a) neu (b), ei ddatodwr neu ei ddatodwr dros dro neu ei ymddiriedolwr mewn methdaliad, yn ôl fel y digwydd.

#### **Presenoldeb tystion**

9.-(1) Caiff y Comisiynydd, os bernir ei bod yn angenrheidiol at ddibenion archwiliad, ei gwneud yn ofynnol i berson y mae paragraff (2) yn gymwys iddo fod yn bresennol yn bersonol gerbron y Comisiynydd i roi gwybodaeth, esboniadau neu gymorth.

(2) Y personau y mae'r paragraff hwn yn berthnasol iddynt yw personau y mae'n ofynnol iddynt -

- (a) roi gwybodaeth o dan baragraff (1)(a) o reoliad 8, neu
- (b) roi esboniad o dan baragraff (1)(b) o reoliad 8.

(3) Ni chaiff y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i berson fod yn bresennol yn bersonol mewn unrhyw le yn unol â pharagraff (1) ond os rhoddyd i'r person hwnnw hysbysiad ysgrifenedig rhesymol o ddyddiad arfaethedig ei bresenoldeb a'r wybodaeth, yr esboniadau neu'r cymorth y mae ar y Comisiynydd eu hangen.

(4) Mewn cysylltiad â phresenoldeb personol o'r fath, caiff y Comisiynydd, yn ddarostyngedig i adran 74(4) o'r Ddeddf, roi gwysion tystion a gweinyddu llwon neu gadarnhadau a chaiff ganiatáu i berson gael ei gynrychioli gerbron y Comisiynydd.

#### **RHAN IV**

#### **RHOI CYMORTH**

#### **Rhoi cymorth mewn achosion**

10.-(1) Caiff y Comisiynydd, yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (5), roi cymorth perthnasol i blentyn

members, directors, executives, officers and employees of a relevant person and persons who work or worked for a relevant person in a voluntary capacity;

(ii) For the purposes of sub-paragraph (i) "relevant person" ("*person perthnasol*") means the Assembly, any person mentioned in Schedule 2A to the Act, any other person exercising a function of the Assembly or of any person mentioned in the said Schedule 2A, or any person providing services to or in respect of children in Wales on behalf of or under arrangements with any person mentioned in Schedule 2B to the Act.

(c) The receiver or manager of the property, the liquidator or provisional liquidator or the trustee in bankruptcy, as the case may be, of a person who provides or provided services described in paragraphs (a) or (b).

#### **Attendances of witnesses**

9.-(1) The Commissioner may, if it is considered necessary for the purposes of an examination, require a person to whom paragraph (2) applies to attend before the Commissioner in person to provide information, explanations or assistance.

(2) The persons to whom this paragraph applies are persons who are required\_

- (a) to provide information under paragraph (1)(a) of regulation 8, or
- (b) to provide an explanation under paragraph (1)(b) of regulation 8.

(3) The Commissioner may only require a person to attend in person at any place in accordance with paragraph (1) if reasonable written notice of the proposed date of attendance and the information, explanations or assistance required by the Commissioner has been given to that person.

(4) In connection with such attendance in person, the Commissioner may, subject to section 74(4) of the Act, issue witness summonses and administer oaths or affirmations and may permit a person to be represented before the Commissioner.

#### **PART IV**

#### **PROVISION OF ASSISTANCE**

#### **Provision of assistance in proceedings**

10.-(1) The Commissioner may, subject to paragraphs (3) and (5), provide relevant assistance to a



perthnasol -

- (a) mewn perthynas ag achosion a ragnodir ym mharagraff (2) pan fydd yr achosion, ym marn resymol y Comisiynydd, yn ymwneud â materion sy'n gymwys neu'n berthnasol yn fwy cyffredinol i hawliau neu les plant perthnasol nag yn yr achos penodol o dan sylw, a
- (b) wrth wneud Cŵyn neu gyflwyno sylwadau i ddarparydd gwasanaethau rheoleiddiedig i blant yng Nghymru neu mewn perthynas ag ef, ac
- (c) wrth wneud Cŵyn neu gyflwyno sylwadau i berson a grybwyllir yn adran 73(2B) o'r Ddeddf neu yn Atodlen 2B iddi neu mewn perthynas ag ef.

(2) Mae'r achosion a ragnodir at ddibenion adran 76(1)(b) o'r Ddeddf yn achosion sy'n ymwneud -

- (a) â darparu gwasanaethau rheoleiddiedig i blant yng Nghymru i blentyn perthnasol neu mewn perthynas ag ef;
- (b) â darparu gwasanaethau i blentyn o'r fath neu mewn perthynas ag ef gan unrhyw berson a grybwyllir yn Atodlen 2B i'r Ddeddf neu gan unrhyw berson sy'n darparu gwasanaethau ar ran y person hwnnw neu o dan drefniadau ag ef; neu
- (c) â'r effaith a gâi arfer, neu'r bwriad i arfer, unrhyw un o swyddogaethau'r Cynulliad neu unrhyw un o swyddogaethau person a grybwyllir yn Atodlen 2A i'r Ddeddf ar blentyn o'r fath.

(3) Wrth benderfynu a ddylid rhoi cymorth perthnasol, caiff y Comisiynydd gymryd i ystyriaeth y cymorth ariannol a'r cymorth arall sydd ar gael i'r plentyn perthnasol mewn perthynas â'r achosion, y gŵyn neu'r sylwadau o dan sylw, gan gynnwys cymorth o dan Ddeddf Cyfle i Gael Cyfiawnder 1999.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "cymorth perthnasol" yw -

- (a) rhoi, neu drefnu rhoi, cyngor i'r plentyn a'i gynrychioli; a
- (b) rhoi, neu drefnu rhoi, unrhyw gymorth arall y mae'n credu ei fod yn briodol.

